**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 3ydd Chwefror 2021, yn dechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B.Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 15. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd J. Ball.

## 16. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – IONAWR 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1092 | Shire Leasing | 337.33 | System ffon Avaya Ch4 ar gyfer 2020/21 |
| 1090 | BT | 106.09 | Rhentu llinell |
| 1091 | BT | 444.15 | Rhentu llinell a galwadau |
| 1093 | Quandient (Neopost) | 108.04 | Cerdyn cyfradd IJ25 ar gyfer peiriant ffrancio |
| 1097 | HSBC | 6.50 | Taliadau banc 17eg Tach i 16eg Rhag 2020 |
| 1095 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi rheoli Tach 2020 |
| 985 | Gwasanaeth Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swydd Swyddog Apeliadau 20/21 taliad 10 o 12 |
| 984 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC 20/21 ar gyfer swyddfa Ffordd Wellington taliad 10 o 10 |
| 1096 | CThEM | 2,804.90 | Didyniadau PAYE Rhag 2020 |
| 1097 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,294.23 | Didyniadau pensiwn ac ariaanu diffyg Rhag 2020 |
| 1098 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,356.25 | Cyflogau Staff Ion 2021 |
| 990 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swydd Swyddog Tlodi Tanwydd 20/21 taliad 4 o 4 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£20,550.16** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog at Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 23.57 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 0.58 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 0.77 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 0.77 |

| | | |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 0.77 |
| CThEM | VAD-daliad TAW ar gyfer Ch3 2020/21 | 8,666.49 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£8,692.95** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 17. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb. | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1106 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres Gorffennaf 2020 | 93.00 |
| 1107 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres Hydref – Rhagfyr 2020 | 93.00 |
| 1108 | Scottish Power | Trydan ar gyfer goleuadau Rhag 2020 | 399.29 |
| 1109 | Proarb Ltd | Coeden Nadolig 2020 | 1,686.01 |
| | | **Cyfanswm** | **£2,271.30** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 18. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI – HYDREF-TACHWEDD 2020

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan ddweud mai cyfanswm y llogau a gafwyd o bum cyfrif banc y Cyngor Tref ar gyfer y cyfnod uchod oedd £80.94.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad.*

## 19. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2021/22

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gymeradwyaeth yr aelodau mewn perthynas â strategaeth 2021/22.

***PENDERFYNWYD*** *cyemradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol ar gyfer 2021/22.*

## 20. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN RHAGFYR 2020 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/21

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn. amcangyfrif gwarged o £87,414 ar gyfer 2020/21; hysbysu o'r bwriad i drosglwyddo £15,000 i'r Gronfa Wrth Gefn Prosiectau Mawr a £5,000 i'r Gronfa Wrth Gefn Etholiadau, a chydnabod y papur ar wahân ar yr eitem

ganlynol ar y rhaglen mewn perthynas â Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol, y benthyciad SC2 a'r Gronfa Prosiectau Mawr.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**21. ADOLYGIAD O GRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL / BENTHYCIAD SC2 A CHRONFA WRTH GEFN PROSIECTAU MAWR**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am awdurdod yr aelodau i ryddhau ad-daliad cynnar o £100,000 oddi ar fenthyciad SC2 gyda Chyngor Sir Ddinbych; cymeradwyo trosglwyddo £40,000 o'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol i'r Gronfa Prosiectau Mawr a gofyn i'r aelodau gydnabod y byddai'r cronfeydd wrth gefn eraill yn cael eu hadolygu yn 2021/22.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi Clerc y Dref i dalu £100,000 oddi ar y benthyciad SC2, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru (os oedd angen) a chymeradwywyd yr ail drosglwyddiad a awgrymwyd.*

**22. CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU – PENODI CYNRYCHIOLYDD I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFYRDD**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield at Raglen Pwylllgor Cyswllt Trafnidiaeth Arfordir y Gogledd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelodau a gofynnodd i'r aelodau os oeddynt yn teimlo y dylai'r Cyngor Tref benodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

***PENDEFYNWYD*** *enwebu'r Cynghorydd B. Mellor i fynychu'r cyfarfodydd ar ôl Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, pan fyddai'r holl gynrychiolwyr yn cael eu cadarnhau.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *cymeradwyo'r gynrychiolaeth fel 'dyletswydd a gymeradwywyd' fel bod unrhyw gostau a achoswyd gan y Cynghorydd Mellor yn cael eu talu gan y Cyngor Tref.*

**23. YMGYNGHORIAD: CYNLLUN GARCHOD Y GLANNAU CANOL Y RHYL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr wybodaeth ar yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gyda gwybodaeth bellach i ddilyn, a dywedodd y dylid gohirio'r eitem gan nad oedd yr wybodaeth ychwanegol eto ar gael.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem.*

**24. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**25. LLYTHYR AT GYNGOR SIR DDINBYCH**

Ymhellach i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Ionawr 2021, cyflwynodd Clerc y Dref ei lythyr drafft (a ddosbarthwyd i'r aelodau drwy ebost cyn y cyfarfod) i'r aelodau ei ystyried a'i newid fel y bo angen.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r llythyr i'w anfon at Brif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Ddinbych.*

**26. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………